Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Penyrheol

**Heol Frampton**
**Gorseinon**
**Abertawe**
**SA4 4LY**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant**

**yng Nghymru**

# Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Penyrheol

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Penyrheol |
| Awdurdod lleol | Dinas a Sir Abertawe |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | Dim |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 225 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 174 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 30 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 23.7%) | 29.3% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 13.2%) | 39.1% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | * |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 2.9% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2001 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 12/10/2015 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 26/02/2024 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: fyysgolleol.llyw.cymru

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Gynradd Penyrheol yn ysgol gynhwysol a chroesawgar sy'n darparu amrywiaeth gyfoethog o brofiadau dysgu cyffrous ar gyfer disgyblion. Mae staff yn sicrhau bod pob un o'r disgyblion yn gallu manteisio ar ystod eang o gyfleoedd sy'n ennyn eu diddordeb, yn ysgogi eu chwilfrydedd ac yn datblygu eu medrau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth yn dda. Oherwydd hyn, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau eu cyfnod yn yr ysgol ac yn dangos graddau uchel o frwdfrydedd mewn gwersi.

Mae athrawon yn meithrin dysgu blaenorol disgyblion yn llwyddiannus. Maent yn cynllunio gwersi cymhellol sy'n datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol disgyblion yn raddol, gan ddefnyddio gweithgareddau pwrpasol sy'n gweddu'n dda i anghenion disgyblion. Mae athrawon ar draws yr ysgol yn darparu lefel briodol o gymorth a her sy'n sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf wrth ddatblygu eu medrau dros gyfnod. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn darparu digon o gyfle i ddisgyblion ddysgu'n annibynnol. Mae staff yn holi disgyblion i asesu eu cynnydd ac ymestyn eu meddwl yn effeithiol. Maent yn rhoi adborth defnyddiol i ddisgyblion sy'n eu helpu i ymestyn eu dysgu'n llwyddiannus.

Mae staff wedi sefydlu perthnasoedd cadarnhaol â rhieni a gyda phartneriaid yn y gymuned leol. Maent yn adeiladu ar y rhain i gyfoethogi'r cwricwlwm yn fuddiol. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o'i thir a'i hardal leol i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o'r amgylchedd ac o'u treftadaeth a'u hunaniaeth Gymreig. Mae staff yn hyrwyddo'r Gymraeg yn dda ac yn meithrin agweddau cadarnhaol disgyblion tuag at siarad Cymraeg.

Mae arweinwyr ac athrawon yn gosod disgwyliadau uchel iddyn nhw eu hunain ac ar gyfer cynnydd disgyblion, a'u hagweddau at ddysgu. Maent yn modelu'r rhain yn gyson dda. O ganlyniad, mae ymddygiad disgyblion yn eithriadol o dda ac mae pob aelod o'r tîm staff yn dangos ymrwymiad proffesiynol cryf i'w rôl. Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn gosod cyfeiriad clir ar gyfer datblygiad yr ysgol. Maent yn canolbwyntio'n fuddiol ar sicrhau addysgu sy'n gyson effeithiol ac wedi creu hinsawdd lle mae pob un o'r staff yn cydweithio'n effeithiol i ddatblygu eu harfer ymhellach.

## Argymhellion

A1 Gwella cyfleoedd i ddisgyblion wneud penderfyniadau am eu dysgu a gweithio ag annibyniaeth

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif werthusiad

### Dysgu

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn meithrin eu gwybodaeth a’u dealltwriaeth yn bwrpasol ac yn gwneud cynnydd cryf o ran datblygu ystod eang o fedrau.

Mae bron pob un o’r disgyblion yn gwrando’n dda. Maent yn rhoi sylw i gyfarwyddiadau oedolion ac yn gwrando’n ofalus ar eu cyfoedion wrth weithio mewn grwpiau bach ac yn ystod trafodaethau dosbarth. Wrth i ddisgyblion symud trwy’r ysgol, mae’r rhan fwyaf ohonynt yn dechrau defnyddio iaith lafar â manwl gywirdeb cynyddol ac i ymestyn eu geirfa’n dda. Maent yn ymateb yn synhwyrol i gwestiynau ac yn awyddus i rannu eu syniadau. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yn cymryd rhan mewn trafodaethau yn aeddfed, yn gwrando’n astud ac yn dangos parch at farn wahanol pobl eraill.

Ar draws yr ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos mwynhad mewn darllen a phan fydd rhywun yn darllen iddynt. Mae’r rhan fwyaf o’r disgyblion iau yn gwneud cynnydd da yn datblygu a defnyddio eu gwybodaeth am seiniau llythrennau. Erbyn Blwyddyn 2, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen testunau sy’n briodol o heriol yn hyderus a gyda rhuglder priodol. Mae’r rhan fwyaf o’r disgyblion hŷn yn darllen â dealltwriaeth. Maent yn llithrddarllen ac yn sganio testunau i ddod o hyd i ddarnau allweddol o wybodaeth yn effeithlon ac yn datblygu eu defnydd o resymu a dod i gasgliad yn dda. Er enghraifft, maent yn trafod y llyfrau lluniau difyr y maent yn eu rhannu mewn gwersi yn feddylgar ac yn mwynhau actio fel ditectifs darllen, gan ddefnyddio cliwiau i ragfynegi beth allai ddigwydd nesaf. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn cyfosod gwybodaeth mewn testunau yn effeithiol, er enghraifft i amlygu sut mae mynyddwraig yn defnyddio’i phrofiad a’i rhinweddau personol i oresgyn rhwystrau a datblygu ei gwydnwch.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn datblygu eu medrau ysgrifennu. Mae’r disgyblion ieuengaf yn defnyddio dalenni mawr o bapur i greu marciau sy’n ail-ddweud stori y maent yn ei rhannu yn y dosbarth. Erbyn Blwyddyn 2, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu at ddiben yn dda, er enghraifft i adrodd am ymweliad â chastell. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yn datblygu dealltwriaeth gadarn o wahanol genres ac yn cymhwyso hyn yn bwrpasol yn eu hysgrifennu eu hunain. Maent yn defnyddio iaith ffigurol, fel trosiad, i ychwanegu diddordeb at eu hysgrifennu ac yn defnyddio amrywiaeth gynyddol o strwythurau brawddeg i greu effaith. Erbyn Blwyddyn 6, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu’n estynedig yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn cynllunio, yn drafftio ac yn cyhoeddi dadl gytbwys sy’n ystyried ailgyflwyno bleiddiaid yn y Deyrnas Unedig. Maent yn gwneud gwelliannau gwerthfawr i’w hysgrifennu i gryfhau eu geirfa a mynegi safbwyntiau’n gliriach. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio’u medrau ysgrifennu yn llwyddiannus yn eu dysgu ehangach. Maent yn atalnodi ac yn cyflwyno’u hysgrifennu’n briodol ac yn sillafu â chywirdeb da.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu ystod dda o fedrau rhifedd. Mae disgyblion iau yn cyfrif deunyddiau naturiol ac yn cymharu maint gwrthrychau bob dydd i ddatblygu eu hiaith fathemategol. Maent yn defnyddio adnoddau ymarferol i’w

cynorthwyo i adio ac yn dechrau cofnodi cyfrifiadau syml yn systematig. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o werth lle ac yn defnyddio'u medrau mesur i ddarllen graddfeydd mewn unedau safonol yn gywir ac amcangyfrif dimensiynau'n synhwyrol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ym Mlwyddyn 4 yn defnyddio dulliau gweledol i ddod o hyd i ffracsiynau symiau ac yn adio a thynnu degolion yn gywir, er enghraifft wrth weithio gydag arian. Erbyn Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio ffeithiau lluosi y maent wedi'u dysgu ar eu cof gydag ystwythder wrth ddatrys problemau geiriau â dau gam. Maent yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau ysgrifenedig i gyfrifo â hyder. Mewn ychydig o achosion, mae disgyblion yn cymhwyso'u medrau rhifedd i'w dysgu ehangach yn dda. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 3 yn defnyddio'u medrau mesur yn bwrpasol wrth wneud gwaith maes ar ymweliad ag Afon Llanilltud Gŵyr. At ei gilydd, mae defnydd disgyblion o'u medrau trin data a rhifedd yn eu dysgu ehangach yn llai datblygedig.

Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn dangos agweddau cadarnhaol at ddysgu Cymraeg. Mae disgyblion iau yn mwynhau ymuno â chaneuon a rhigymau Cymraeg sy'n magu eu hyder ac yn meithrin eu geirfa'n effeithiol. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn gofyn cwestiynau syml, ac yn ymateb iddynt, er enghraifft i ddisgrifio'r tywydd a ble maent yn byw. Mae disgyblion hŷn yn ymestyn eu hymatebion ar lafar i gynnwys mwy o fanylion a chymhwyso'u hatebion yn briodol. Maent yn gweld bod dysgu Cymraeg yn fedr gwerthfawr sy'n gwella'u gallu i gyfathrebu â phobl eraill.

Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn datblygu eu medrau digidol. Mae disgyblion iau yn dangos hyder wrth ddefnyddio dyfeisiau digidol ac yn dechrau eu defnyddio'n dda i gefnogi eu datblygiad iaith cynnar. Mae disgyblion yn y dosbarth Meithrin yn defnyddio cyfrifiaduron llechen i recordio eu hunain yn canu hwiangerddi, ac erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio bysellfwrdd a llygoden yn fedrus i gofnodi eu gwaith. Erbyn Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio ystod o fedrau digidol yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn creu adeiladau a thirluniau digidol sy'n darlunio taith i'r Antarctig, ac yn defnyddio fformiwlâu mewn taenlen i fodelu effaith newid cynhwysion ar y gost gyffredinol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau mynegiannol yn dda. Maent yn mwynhau'r cyfleoedd mynych ac amrywiol i ymateb i symbyliadau difyr gan ddefnyddio ystod o wahanol gyfryngau artistig. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu defnydd medrus o dechneg y maent yn ei chymhwyso'n ddychmygus i greu celf weledol drawiadol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn barod i gymryd rhan mewn gweithgareddau cerddoriaeth a drama sy'n cryfhau eu medrau siarad a gwrando yn llwyddiannus ac yn datblygu eu hyder a'u hunan-barch yn fuddiol.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion iau yn cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol yn frwdfrydig. Maent yn datblygu medrau trin a thrafod da ac yn dangos hyder wrth redeg, neidio a throi. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion iau yn rheoli eu symudiadau gymnasteg yn dda, er enghraifft wrth falansio a rholio. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hŷn yn dangos medrau sy'n gynyddol soffistigedig, er enghraifft wrth adlewyrchu symudiadau partner neu ddilyn trefn arweinydd.

## Lles ac agweddau at ddysgu

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn frwdfrydig am eu cyfnod yn yr ysgol ac yn dangos mwynhad yn y profiadau a ddarperir gan yr ysgol. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn mynychu'n rheolaidd ac yn cyrraedd ar amser. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu parchu, ac yn gwybod bod eu meddyliau a'u hawgrymiadau'n cael eu gwerthfawrogi. Maent yn hyderus y bydd staff yn gwrando ar unrhyw bryderon sydd ganddynt ac yn darparu'r cymorth sydd ei angen arnynt.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn foesgar a chwrtais. Maent yn dangos parch at ei gilydd, at staff ac ymwelwyr. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn gweithio a chwarae gyda'i gilydd yn hapus. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ddysgwyr brwd sy'n dangos lefelau uchel o ddiddordeb yn y cyfleoedd a ddarperir iddynt. Maent yn gwrando'n astud ar eu hathrawon ac ar ei gilydd, ac yn ymdawelu i wneud tasgau'n gyflym, gan gynnal eu ffocws yn ystod gwersi yn llwyddiannus.

Mae disgyblion yn gwerthfawrogi'r adborth a gânt gan staff. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hŷn yn defnyddio adborth yn adeiladol, er enghraifft i gywiro camgymeriadau a gwella'u dealltwriaeth. Mae llawer o ddisgyblion yn gwybod sut i ddefnyddio meini prawf llwyddiant i'w helpu i gwblhau tasgau yn effeithiol, er enghraifft trwy ffocysu eu hymchwil i ddod o hyd i wybodaeth berthnasol am gestyll mwnt a beili. Mae llawer o ddisgyblion iau yn dechrau myfyrio'n dda ar eu gwaith eu hunain a gwaith disgyblion eraill. Er enghraifft, maent yn gwirio patrymau ailadrodd ei gilydd yn ofalus ac yn siarad yn synhwyrol am ffyrdd y gallent wneud eu patrwm eu hunain yn well.

Mae ymddygiad disgyblion yn nodwedd gref o'r ysgol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn deall ac yn dilyn rheolau'r ysgol yn gyson. Maent yn ofalgar tuag at ei gilydd ac yn dangos empathi a thosturi yn aml tra byddant yn yr ysgol. Mae llawer o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) neu ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, yn ymgymryd â rolau arwain â balchder ac egni. Maent yn cyfrannu'n dda at waith yr ysgol ac yn cyflawni eu dyletswyddau'n aeddfed. Er enghraifft, mae'r Cyngor Ysgol wedi cyflwyno 'angenfilod gofid' ym mhob dosbarth sy'n galluogi disgyblion i rannu pryderon cyfrinachol a allai fod ganddynt gyda staff mewn ffordd gynnil. Mae hyn yn cynorthwyo disgyblion i fynegi eu teimladau ac yn rhoi hyder iddynt yn y cymorth sy'n cael ei roi gan staff.

Yn ystod eu cyfnod yn Ysgol Gynradd Penyrheol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth dda o bwysigrwydd diet iach a ffordd iach o fyw. Maent yn croesawu'r cyfleoedd a gânt i ddatblygu eu medrau corfforol trwy'r profiadau cyfoethogi niferus a ddarperir gan yr ysgol. Er enghraifft, mae llawer o ddisgyblion iau yn dysgu'n gyflym sut i reidio beic, ac mae llawer o ddisgyblion hŷn yn cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau chwaraeon buddiol. Erbyn Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o sut i aros yn ddiogel pan fyddant ar-lein. Maent yn gwybod i beidio â rhannu gwybodaeth bersonol a phreifat yn gyhoeddus, ac yn deall pa gamau y dylent eu cymryd i ymateb i ddeunydd amhriodol neu unrhyw gysylltiad pryderus y maent yn ei dderbyn ar-lein.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau gwaith tîm da a dealltwriaeth gadarn o gynaliadwyedd trwy gymryd rhan ym mhrosiect cegin gymunedol yr ysgol gydag aelodau o'u teulu a'u cyfoedion. Yn gyffredinol, mae gan ddisgyblion

ymwybyddiaeth gref o faterion amgylcheddol. Maent yn datblygu dealltwriaeth dda o fuddion cynnal a gwarchod eu hamgylchedd lleol er lles eu hiechyd ac ar gyfer bywyd gwyllt. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyfrannu’n uniongyrchol at wella bioamrywiaeth ar dir yr ysgol trwy blannu dros 600 o goed, tyfu ffrwythau a llysiau mewn twnnel polythen a datblygu perllan dreftadaeth. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn adnabod peryglon posibl traffig a llygredd ac yn cerdded yn gynyddol i’r ysgol neu’n defnyddio eu beiciau neu’u sgwteri.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae gan staff weledigaeth glir ac ar y cyd ar gyfer y cwricwlwm sy’n ymgorffori arwyddair yr ysgol yn llawn, sef ‘Rhoi Plant yn Gyntaf’. Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn darparu amrywiaeth gyffrous o brofiadau dysgu perthnasol a phwrpasol sy’n ysgogi diddordeb disgyblion yn dda ac yn diwallu eu hanghenion yn effeithiol. Maent yn sicrhau bod disgyblion yn gallu manteisio ar ystod eang o gyfleoedd bywiog ar draws ehangder y cwricwlwm sy’n cymell ac yn ymgysylltu â bron pob un o’r disgyblion yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn awyddus i ddysgu ac yn mwynhau eu cyfnod yn yr ysgol.

Mae athrawon a staff cymorth yn dangos dull pwyllog, sensitif a chefnogol yn gyson. Maent wedi creu amgylcheddau dysgu ysgogol, sy’n cynnwys adnoddau da, sy’n dathlu cyflawniadau disgyblion ac yn cefnogi’r camau nesaf yn eu dysgu yn dda. Maent yn defnyddio tir helaeth yr ysgol i ddatblygu medrau corfforol ac ymholi disgyblion yn bwrpasol, a hyrwyddo’u dealltwriaeth o gynaliadwyedd yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn addysgu disgyblion am ffyrdd arloesol o gompostio deunyddiau i’w hailddefnyddio wrth blannu bylbiau.

Ar draws yr ysgol, mae staff yn rhoi cyfleoedd buddiol i ddisgyblion gael ‘llais a dewis’ yn eu dysgu. Maent yn rhoi amser ar ddechrau pob testun i alluogi pob un o’r disgyblion i rannu’r hyn y maent yn ei wybod a gwneud awgrymiadau gwerthfawr am beth maent eisiau ei ddysgu. Mae athrawon yn cynllunio’r cwricwlwm yn effeithiol i sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd addas i feithrin eu medrau, eu gwybodaeth a’u profiad yn systematig wrth iddynt symud trwy’r ysgol. Mae athrawon yn defnyddio’u gwybodaeth fanwl am ddisgyblion i gynllunio gweithgareddau sy’n darparu her a chymorth priodol fel bod pob un o’r disgyblion yn ymgysylltu â chwricwlwm yr ysgol yn llawn.

Mae athrawon a staff cymorth yn datblygu defnydd disgyblion o iaith fynegiannol ac ystod eu geirfa yn dda. Maent yn modelu disgwyliadau uchel ac yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso’u medrau llafaredd mewn ystod dda o gyd-destunau pwrpasol. Er enghraifft, mae aelodau o grwpiau disgyblion yn arwain gwasanaethau ysgol gyfan yn aml, ac yn cyfleu eu gwaith yn glir ac yn effeithiol. Mae athrawon yn defnyddio holi’n fedrus i ysgogi disgyblion i ddefnyddio geiriau’n fanwl gywir er mwyn egluro’u meddwl. Oherwydd hyn, mae’r rhan fwyaf o’r disgyblion hŷn yn siarad yn hyderus ac yn mynegi eu barn a’u syniadau’n aeddfed.

Mae staff yn eiriolwyr cryf dros y Gymraeg. Maent yn cofleidio, hyrwyddo a dathlu’r defnydd o’r Gymraeg yn yr ysgol ac yn creu hinsawdd lle mae disgyblion yn teimlo’n gyfforddus i siarad Cymraeg heb boeni am wneud camgymeriadau. Ar draws yr ysgol, mae athrawon a staff cymorth yn modelu’r iaith yn gyson dda. Maent yn

defnyddio’r Gymraeg yn aml trwy gydol y dydd ac yn darparu sesiynau rheolaidd sy’n meithrin medr ac yn magu hyder disgyblion yn effeithiol.

Mae’r ysgol yn gwneud defnydd cynhwysfawr o’r ardal leol i ymestyn a chyfoethogi ei chwricwlwm. Mae staff yn defnyddio tripiau ac ymweliadau i sbarduno cymhelliant disgyblion ac ysbrydoli eu dysgu yn fuddiol. Er enghraifft, yn ystod ymweliad ag Amgueddfa Abertawe, mae disgyblion Blwyddyn 4 yn ennill dealltwriaeth werthfawr o broses mymieiddio y maent yn myfyrio arni’n fedrus yn y dosbarth. Mae staff yn defnyddio cyfleusterau fel y pwll yn yr ysgol gyfun gyfagos a’r llyfrgell leol i gefnogi datblygiad disgyblion ac ehangu eu mynediad at amwynderau lleol.

Mae athrawon a staff cymorth yn ymarferwyr medrus, hyderus a myfyriol. Maent yn croesawu dysgu proffesiynol ac yn mynd ati i chwilio am gyfleoedd i ddatblygu eu harfer. Mae athrawon yn meddu ar wybodaeth bynciol gref ac yn dangos dealltwriaeth dda o sut i feithrin medrau llythrennedd, rhifedd a digidol disgyblion yn raddol. Maent yn addasu eu haddysgu i ddiwallu anghenion unigol y disgyblion yn eu dosbarth yn llwyddiannus. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn darparu digon o gyfleoedd i ddisgyblion wneud penderfyniadau annibynnol am sut i gyflwyno a chwblhau eu gwaith, neu ddod o hyd i adnoddau ar ei gyfer. Pan fydd hyn yn digwydd, caiff disgyblion lai o gyfle i fod yn hunanddibynnol yn eu dysgu a chwilio am eu hatebion creadigol eu hunain.

Mae athrawon yn gwneud defnydd medrus o asesu i fonitro cynnydd disgyblion a nodi agweddau ar eu dysgu sydd angen eu hatgyfnerthu. Maent yn rhoi adborth uniongyrchol i ddisgyblion yn ystod gwersi sy’n eu cynorthwyo i wella’u gwaith a dyfnhau eu dealltwriaeth. Er enghraifft, maent yn nodi camgymeriadau yn null cyfrifo disgyblion ac yn defnyddio seibiant byr i fynd i’r afael â’r camdybiaethau’n gyflym. Mae athrawon yn defnyddio’r wybodaeth hon i lywio dysgu yn y dyfodol fel eu bod yn adeiladu ar y cynnydd a wna disgyblion ac yn cynllunio camau nesaf priodol. Maent yn ailedrych ar amcanion ar gyfer dysgu i gynorthwyo disgyblion i adolygu’r hyn y maent wedi’i gyflawni a chymryd perchnogaeth gynyddol am y cynnydd a wnânt.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae’r ysgol yn gymuned anogol a chefnogol lle mae staff yn meithrin ethos gofalgar a chyfeillgar sy’n galluogi pob disgybl i ffynnu. Mae’r perthnasoedd cryf rhwng staff, disgyblion a rhieni yn nodweddu gwaith yr ysgol. Mae athrawon a staff cymorth yn mynd i’r afael ag anghenion emosiynol a chymdeithasol disgyblion yn dda. Maent yn creu amgylchedd calonogol a gwresog sy’n cyfrannu’n fuddiol at fodlonrwydd disgyblion ac yn ategu safon uchel yr ymddygiad sy’n amlwg ar draws yr ysgol. Mae staff yn gwneud defnydd da o gyfleusterau fel ystafell synhwyraidd a thir helaeth yr ysgol i hyrwyddo lles corfforol ac emosiynol disgyblion yn effeithiol. Maent yn darparu gweithgareddau difyr ar ddwy ochr y diwrnod ysgol, sy’n annog ymglymiad gweithredol disgyblion ym mywyd ehangach yr ysgol ac yn cynyddu eu mwynhad o’u cyfnod yn yr ysgol.

Mae Cydlynydd ADY yr ysgol yn cydweithio’n effeithiol â staff ac uwch arweinwyr i gynorthwyo disgyblion ag ADY. Mae staff yn nodi anghenion disgyblion yn gyflym ac yn darparu cymorth amserol a thargedig. Maent yn adolygu cynnydd disgyblion unigol yn rheolaidd ac yn cyfarfod â rhieni i ddatblygu dealltwriaeth ar y cyd o anghenion parhaus disgyblion. Mae cynorthwywyr addysgu yn cynnal cyfres o

ymyriadau â ffocws wedi'u cynllunio'n dda, er enghraifft i gryfhau medrau cyfathrebu a chymdeithasol disgyblion. Maent yn gweithio'n fedrus gyda disgyblion i leihau bylchau yn eu dysgu a hybu eu hyder yn effeithiol. Mae'r ysgol yn ymgysylltu'n dda â gwasanaethau arbenigol i fanteisio ar arweiniad a chymorth perthnasol sy'n helpu bron pob un o'r disgyblion ag ADY i wneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn unigol.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ymgymryd ag amrywiaeth o rolau arwain. Mae staff yn cynorthwyo disgyblion etholedig i greu eu cynllun datblygu eu hunain a chyfrannu'n bwrpasol at wneud penderfyniadau. Er enghraifft, mae 'Tîm Gwyrdd' yr ysgol wedi bod yn allweddol yn datblygu tir yr ysgol i sefydlu 'Dingley Dell', adeiladu twnnel polythen, a phlannu'r berllan dreftadaeth. Mae'r mentrau hyn yn darparu adnoddau gwerthfawr ar gyfer dysgu disgyblion sy'n hyrwyddo'u dealltwriaeth o fioamrywiaeth a chynaliadwyedd yn llwyddiannus.

Mae staff yn darparu ystod dda o brofiadau buddiol sy'n datblygu dealltwriaeth disgyblion o'u treftadaeth Gymreig a'u cynefin. Er enghraifft, fel rhan o brosiect hanes lleol, mae disgyblion yn dysgu am Frwydr Gŵyr ac yn chwarae rôl bywyd Evan Roberts, sef ffigur lleol allweddol yn Niwygiad Crefyddol 1904. Mae'r ysgol yn meithrin gwerthfawrogiad disgyblion o ddiwylliant Cymreig cyfoes yn llwyddiannus, er enghraifft trwy gyfranogiad disgyblion yng nghystadlaethau amrywiol yr Urdd, a thrwy waith y Criw Cymraeg sy'n hyrwyddo'r Gymraeg yn frwdfrydig mewn gemau amser chwarae. Mae staff yn darparu cyfleoedd cyfoethog i ddisgyblion ymgysylltu â'r celfyddydau mynegiannol, er enghraifft trwy sesiynau drama a sesiynau cerddoriaeth wythnosol, ac ymweliadau rheolaidd gan artist gweledol. Mae'r profiadau hyn yn cynorthwyo disgyblion i ddatblygu eu medrau a defnyddio'u creadigrwydd a'u dychymyg â diben.

Mae staff yn darparu ystod amrywiol o ymweliadau sy'n ymestyn y cwricwlwm ac yn ennyn diddordeb pob un o'r disgyblion yn eu dysgu. Mae'r ysgol yn defnyddio cysylltiad sefydledig gydag ysgol ryngwladol yn Sbaen i ddatblygu medrau iaith disgyblion a'u gwybodaeth am ddiwylliannau eraill. Mae staff yn gwneud defnydd da o ymweliadau preswyl, fel canolfan yr Urdd yn Llangrannog, i alluogi disgyblion i brofi amrywiaeth gyffrous o weithgareddau datrys problemau a gweithgareddau anturus, ac ymestyn eu medrau siarad Cymraeg.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o anghenion a hawliau pobl eraill, yn lleol ac yn fyd-eang, yn effeithiol. Mae hyn yn cynorthwyo disgyblion i wneud dewisiadau sy'n cyd-fynd â gwerthoedd clir yr ysgol ac adlewyrchu'r agweddau parchus sy'n cael eu modelu yn yr ysgol. Mae staff yn galluogi disgyblion i wneud cyfraniadau cryf at fywyd eu cymuned leol. Er enghraifft, mae'r ysgol yn gwneud defnydd ystyriol o bartneriaeth â lleoliad priodas i ddisgyblion greu tuswon blodeuog o flodau priodas wedi'u hailgylchu yn anrheg ar gyfer unrhyw un mewn angen. O ganlyniad, mae disgyblion yn datblygu dealltwriaeth o'r effaith gadarnhaol y gall eu gweithredoedd ei chael ar les pobl eraill. Mae staff yn gwneud defnydd effeithiol o wersi a gwasanaethau i hyrwyddo datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion a chynyddu eu hymwybyddiaeth o amrywiaeth.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion berfformio. Er enghraifft, mae disgyblion ar draws yr ysgol yn cymryd rhan mewn sioe gyhoeddus flynyddol yn Theatr y Grand yn Abertawe. Mae athrawon yn cynllunio ar gyfer datblygu medrau

entrepreneuraidd disgyblion yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn defnyddio partneriaethau â busnesau lleol i noddi disgyblion i gynnal menter ar raddfa fach a dysgu am wahanol gyfleoedd gyrfa yn yr ardal leol.

Mae arweinwyr ac athrawon yn gwneud trefniadau addas i sicrhau diogelwch disgyblion a datblygu eu dealltwriaeth o sut i reoli risg. Er enghraifft, mae staff yn addysgu disgyblion am sut i gadw'n ddiogel ar-lein ac yn trefnu gweithdai addysgiadol sy'n datblygu dealltwriaeth disgyblion o berthnasoedd iach. Mae arweinwyr yn rhoi pwyslais cryf ar sicrhau lles pob un o'r disgyblion ac yn sicrhau bod trefniadau cadarn i ddiogelu disgyblion a hyrwyddo presenoldeb da yn cael eu dilyn yn briodol.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae gan yr ysgol drefniant lle mae dau uwch arweinydd yn rhannu rôl y pennaeth. Mae'r ddau bennaeth yn darparu cyfeiriad clir ac effeithiol i waith yr ysgol. Maent wedi creu ymdeimlad cryf o hunaniaeth ar gyfer yr ysgol sydd wedi'i wreiddio yn ei chymuned ac yn weladwy yn yr amrywiaeth gyfoethog o gyfleoedd dysgu pwrpasol y mae'n eu darparu ar gyfer pob un o'r disgyblion.

Mae uwch arweinwyr yn gosod disgwyliadau uchel ar gyfer disgyblion a staff ac yn modelu'r rhain yn gyson dda. Maent yn gweithio'n effeithlon fel tîm i rannu cyfrifoldeb am ddatblygu gwaith yr ysgol. Maent yn defnyddio ystod addas o dystiolaeth uniongyrchol, fel gwaith disgyblion, arsylwadau o addysgu a thrafodaethau â disgyblion, i werthuso cryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w datblygu yn gywir. Mae arweinwyr yn defnyddio'r wybodaeth hon i arwain gwelliant yr ysgol yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn blaenoriaethu datblygiadau yn feddylgar ac yn cynnal ffocws craff ar roi nifer fach o newidiadau gwerthfawr ar waith yn drylwyr. Maent yn meithrin ymgysylltiad ac ymroddiad y tîm staff ehangach i sicrhau bod gwelliannau'n cael eu hymgorffori a'u cynnal. O ganlyniad, mae gan yr ysgol hanes cryf o arwain gwelliannau sy'n effeithio'n arbennig ar gynnydd disgyblion ac ansawdd yr addysgu. Er enghraifft, mae staff wedi gwneud newidiadau a ystyriwyd yn ofalus i'r ffordd y maent yn datblygu medrau darllen disgyblion, sydd wedi cryfhau mwynhad a dealltwriaeth disgyblion o'r hyn y maent yn ei ddarllen.

Mae arweinwyr yn ategu'r gwelliannau hyn â chyfleoedd gwerthfawr i staff elwa ar ddatblygiad proffesiynol ffocysedig. Maent yn alinio dysgu proffesiynol â blaenoriaethau strategol yr ysgol fel bod staff yn meithrin dealltwriaeth gyffredin o addysgu effeithiol. Mae hyn yn helpu sicrhau arfer gyson ar draws dosbarthiadau ac yn sicrhau bod staff yn mabwysiadu ymagwedd gydlynus at gyflwyno cwricwlwm yr ysgol. Mae athrawon a chynorthwywyr addysgu yn cymryd cyfrifoldeb am wella'u harfer trwy drefniadau rheoli perfformiad yr ysgol. Maent yn chwilio am gyfleoedd i gryfhau eu medrau a diweddaru eu gwybodaeth er budd disgyblion. Er enghraifft, mae staff yn ymgymryd â hyfforddiant penodol i gyflwyno cyfres o ymyriadau sy'n ymestyn medrau a lles disgyblion yn effeithiol. Mae'r trefniadau hyn yn meithrin capasiti ymhlith y tîm staff ac yn sicrhau bod arfer fedrus, er enghraifft mewn rheoli ymddygiad, yn cael ei chryfhau ymhellach.

Mae arweinwyr yn creu diwylliant cefnogol lle mae staff yn teimlo'n hyderus i rannu eu harfer a gofyn am gyngor ac arweiniad proffesiynol gan eu cymheiriaid. Er enghraifft, mae staff yn cydweithio i asesu effaith y newidiadau y maent wedi'u

gwneud i addysgu wrth adolygu gwaith disgyblion mewn cyfarfodydd staff. Mae hyn yn galluogi athrawon a chynorthwywyr addysgu i gymryd rhan yn bwrpasol mewn gweithgarwch hunanwerthuso parhaus a chyfrannu eu profiad a'u harbenigedd at arwain datblygiadau gwerthfawr.

Mae llywodraethwyr yn gweithio'n adeiladol gydag arweinwyr yr ysgol i hyrwyddo gwelliant. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o flaenoriaethau'r ysgol ac maent yn holi arweinwyr yn briodol, er enghraifft i sefydlu effeithiolrwydd gweithdrefnau asesu'r ysgol. Mae llawer o lywodraethwyr yn darparu cymorth cryf i'r ysgol trwy gyfrannu eu hamser a'u medrau i gyfoethogi'r cwricwlwm. Maent yn cyflawni eu cyfrifoldebau statudol yn ddiwyd, er enghraifft i sicrhau bod gan yr ysgol drefniadau addas i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach a diogelu disgyblion yn effeithiol. Mae arweinwyr a llywodraethwyr yr ysgol yn rheoli cyllid yr ysgol yn ddarbodus. Maent yn gwneud defnydd effeithiol o grant datblygu disgyblion yr ysgol i sicrhau bod pob un o'r disgyblion yn elwa ar yr ystod eang o gyfleoedd y mae'r ysgol yn eu darparu i ddatblygu eu medrau creadigol a chorfforol. Mae arweinwyr yn rhoi ystyriaeth dda i flaenoriaethau cenedlaethol, er enghraifft trwy drefnu darpariaeth effeithiol i ddatblygu medrau Cymraeg disgyblion a thrwy leihau'r baich ariannol ar deuluoedd trwy gael manwerthwr lleol i rhoi rhodd o wisg ysgol.

Mae arweinwyr wedi sefydlu perthnasoedd gweithio cynhyrchiol â theuluoedd sy'n gwerthfawrogi ethos croesawgar yr ysgol a'r cymorth cryf sy'n cael ei ddarparu gan staff ar gyfer lles disgyblion. Mae'r ysgol yn defnyddio'i phartneriaethau buddiol â sefydliadau cymunedol i ddatblygu medrau aelodau o'r teulu ehangach. Er enghraifft, mae'r ysgol yn cynnal gweithdai trwy fenter goginio gymunedol sy'n galluogi gwahanol genedlaethau i fwynhau coginio gyda'i gilydd tra'n dysgu sut i gyllidebu'n effeithiol a bwyta'n iach. Mae arweinwyr yn gweithio ochr yn ochr â llywodraethwyr ac aelodau o'r Cyngor Rhieni gweithgar i gryfhau'r perthnasoedd hyn ymhellach, er enghraifft trwy wella cyfathrebu rhwng y cartref a'r ysgol.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  01/05/2024